



## Sut mae ymddiriedolaethau a sefydliadau'n ymateb i argyfwng coronafeirws?

Dyma wybodaeth am sut y mae rhai o ymddiriedolaethau a sefydliadau amlycaf Prydain, sy'n ariannu'r celfyddydau a diwylliant, yn ymateb i'r argyfwng. Mae rhai wedi cyflwyno arian brys, eraill yn cefnogi'r rhai sy'n cael grantiau ganddynt yn unig neu wedi atal rhoi eu grantiau arferol ac eraill yn cynnal eu busnes fel arfer. Mae pob un ohonynt yn cefnogi sefydliadau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Mae nifer helaeth o ymddiriedolaethau a sefydliadau yn Llundain a ledled Prydain wedi llofnodi datganiad ar y cyd. Er y bydd pob rhoddwr grant yn gweithio'n annibynnol, bydd y mwyafrif yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol:

**Rydym ni (arianwyr Llundain), gyda grŵp ehangach o arianwyr, yn cydnabod bod coronafeirws yn ddigwyddiad eithriadol a gaiff effaith ar grwpiau cymdeithas sifil. Rydym ni am gynnig sicrwydd ein bod yn sefyll gyda'r sector yn ystod y cyfnod.**

Dymunwn fod mor gymwynasgar â phosibl yn ystod yr wythnosau a'r misoedd nesaf fel y gall grwpiau cymdeithasau sifil ganolbwyntio ar y gwaith hanfodol o gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Deallwn y bydd adegau pan na fydd staff a gwirfoddolwyr ar gael, pan fydd buddiolwyr o bosibl angen darparu gwasanaethau mewn gwahanol ffyrdd a phan fydd yn rhaid i systemau fod yn hyblyg i sicrhau diwallu anghenion. Os caiff eich cymuned, eich gwasanaethau neu eich sefydliad ei effeithio gan goronafeirws, a'ch bod yn cael arian grant gennym, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- **Addasu gweithgareddau** – gwyddom y gallech brofi anawsterau erbyn hyn wrth gyflawni rhai o'r allbynnau neu'r canlyniadau y cytunasom arnynt gyda'ch grant a hoffem allu cynnal ein taliadau grant ichi ar y lefelau y cytunwyd arnynt yn wreiddiol yn ystod y cyfnod, felly cofiwch gael sgwrs gyda ni os ydych chi mewn sefyllfa felly
- **Trafod dyddiadau** – nid ydym ni am ychwanegu pwysau arnoch, felly os credwch y byddwch yn ei chael hi'n anodd cyrraedd eich dyddiad cau, cysylltwch â ni fel y gallwn gytuno ar amser mwy realistig

- **Hyblygrwydd ariannol** – gwyddom efallai y bydd angen ichi ddefnyddio eich arian i dalu am salwch, offer neu wasanaethau gwahanol a byddwn ni'n rhesymol os bydd angen ichi symud arian rhwng categorïau yn eich cyllideb fel y gall eich gwaith barhau

- **Gwrando arnoch chi** – rydym ni yma os ydych chi am siarad â ni am y sefyllfa ond rydym ni'n aros ichi ein ffonio ni i sicrhau bod y sgysiau yn digwydd ar yr adeg iawn i chi

Gwyddom hefyd y gall fod ergydion pellach gan goronafeirws a allai effeithio ar eich ffrydiau eraill o incwm, ac yn gofyn am ymateb brys gan arianwyr. Pan fo gennym unrhyw newyddion am arian brys, rydym ni'n ymrwymo i gyhoeddi hyn drwy ddolenni ar y tudalen gwe yma, fel y gallwch weld yr holl raglenni sydd ar gael mewn un lle.

Dyma restr lawn o lofnodwyr a rhagor o wybodaeth: <http://covid19funders.org.uk>

Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys arianwyr celfyddydol a diwylliannol allweddol ledled Cymru a Lloegr a sut maent yn ymdrin yn benodol â'r rhai sy'n cael grantiau ganddynt yn barod ac â cheisiadau newydd. Nid yw'n rhestr gyflawn, ond mae'n cynnwys yr arianwyr allweddol, ac mae'r wybodaeth yn gywir ar hyn o bryd:

### **Sefydliad Esmée Fairbairn**

O 5pm ddydd Gwener 3 Ebrill ymlaen ni fyddwn ni bellach yn derbyn ceisiadau gan sefydliadau nad ydynt eisoes yn y system. Yn wreiddiol ein bwriad i'r dyddiad cau oedd iddo ymbaratoi i gyflwyno strategaeth newydd, ond erbyn hyn rydym ni'n canolbwyntio ar ymateb i'r sefyllfa frys. Rydym ni'n gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu ymatebion ariannol brys i'w rhannu cyn gynted ag y bo modd. Cyhoeddwn fanylion a chanllawiau penodol am yr arian argyfwng yr wythnos nesaf. Am ragor o wybodaeth: <https://www.esmeefairbairn.org.uk/home>

### **Sefydliad Paul Hamlyn**

Er nad yw effaith lawn y pandemig yn glir, gwyddom am yr anawsterau sy'n wynebu llawer o'r sefydliadau a'r bobl rydym ni'n eu hariannu, a'r unigolion a'r cymunedau rydym ni'n eu cefnogi. Ar 6 Ebrill penderfynasom ganolbwyntio ein hymdrechion a'n hadnoddau o Ebrill hyd dymor yr hydref 2020 i sicrhau y gall pobl sy'n cael grantiau gennym ar hyn o bryd a'r cymunedau sy'n gweithio gyda nhw oroesi'r newid cymdeithasol presennol. Mae pob cais arall wedi ei atal. Rydym ni wedi creu cronfa argyfwng o £20 miliwn. Mae'r gronfa'n ychwanegol at y £30 miliwn sydd eisoes wedi'i ddyrannu i'n rhaglenni grantiau ar gyfer 2020/21. Byddwn ni'n hyblyg gyda'r bobl sy'n cael grantiau gennym ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys diystyru'r gofynion adrodd arferol, ymestyn amserlenni a throi grantiau rhaglen yn rhai gweithredu a chraidd. I liniaru ar galedi uniongyrchol, ar 25 Mawrth cyhoeddasom fod £500,000 yr un yn mynd i ddwy gronfa frys ar gyfer

y sector elusennol - yr Ymddiriedolaeth Argyfwng Genedlaethol a Chronfa Ymateb Cymunedol Llundain. Rhoddwn grantiau argyfwng i rai sefydliadau rydym ni'n eu hariannu ar hyn o bryd. Yr wythnos yma rydym ni wedi cynnig £700,000 ychwanegol i 36 sefydliad i ymateb i'w hangen i addasu gwasanaethau neu sefydlu rhai newydd, sianelu arian i'w rheng flaen neu gefnogi llif eu harian.

- Eleni bydd ffurf wahanol ar raglen grantiau 2020 i artistiaid. Bydd artistiaid gweledol a chyfansoddwyr a enwebir sy'n gymwys yn derbyn grant o £10,000 mewn cydnabyddiaeth o'r problemau ariannol y mae llawer ohonynt yn eu hwynebu
- Byddwn ni'n oedi ein grantiau newydd tan yr hydref. Bydd hyn yn ein galluogi i ffocysu ein holl egni ar ein meysydd gwaith ac ar gefnogi'r sefydliadau rydym ni'n eu hariannu
- Byddwn ni'n hyblyg gyda'r sefydliadau hynny sydd eisoes wedi ymgeisio. Bydd rhai yn gwerthfawrogi'r cyfle i ailfeddwl a dod yn ôl gyda chynigion newydd. Bydd eraill yn elwa ar y gwaith a wnaethant eisoes i lunio'r cais a fydd yn mynd yn ei flaen yn yr wythnosau nesaf. Bydd hyn yn gofyn am sgysiau gonest a rhesymol rhyngom
- O'r hydref ymlaen, rydym ni'n rhagweld y byddwn ni'n derbyn ceisiadau newydd eto, gynnig grantiau adfer a grantiau rhaglen. Bydd hyn yn galluogi ein sefydliadau i addasu eu cynlluniau yng ngoleuni eu profiadau. Rydym ni'n parhau i fod yn agored i sgysiau gyda'r sector, i rannu dysgu ac i ddatblygu partneriaethau. Bydd llawer o ymatebion dyfeisgar a chreadigol yn dod i'r amlwg drwy'r argyfwng ac rydym ni am fod yno i gefnogi syniadau am y tymor hwy yn ogystal â lleddfu'r pryderon presennol.

Am ragor o wybodaeth: <https://www.phf.org.uk/covid-19-support/#covid-19-support>

### **Sefydliad Garfield Weston**

Ar yr adeg yma mae'r Sefydliad ar agor ac mae gennym ystod o fesurau ar waith:

- mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi £1 miliwn fel ymateb cyntaf i'r Ymddiriedolaeth Argyfwng Genedlaethol
- rydym ni'n cynnull cyfarfodydd eithriadol o Ymddiriedolwyr yn ôl yr angen i hwyluso penderfyniadau
- cydweithiwn ag arianwyr eraill i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn effeithiol ac yn gydgysylltiedig
- rydym ni wedi darparu canllawiau syml i elusennau sy'n dymuno newid y defnydd o'u grant presennol
- cynigiwn hyblygrwydd i ddeiliaid grant cyfredol o ran amserlenni ac adrodd

- aildrefnwn y broses ymgeisio i ganolbwyntio ar weithgareddau sy'n helpu'r diamddiffyn a'r rhai sy'n profi caledi o ganlyniad i goronafeirws

### **Apêl Coronafeirws yr Ymddiriedolaeth Argyfwng Genedlaethol**

Rydym ni wedi cyfrannu £1 miliwn at y gronfa a fydd yn gweithio gyda'r rhwydwaith o 46 sefydliad cymunedol ar draws Prydain i ddosbarthu arian i elusennau sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi'r bobl sydd â'r angen fwyaf. Os yw eich elusen yn cefnogi pobl yr effeithir arnynt gan goronafeirws ac mae angen cymorth brys arnoch, gallwch gysylltu â'ch Sefydliad Cymunedol lleol drwy: <https://www.ukcommunityfoundations.org/our-network>

### **Ymgeiswyr cyfredol**

Os oes gennych gais yn yr arfaeth gyda ni a gyflwynwyd cyn 20 Mawrth 2020 cysylltw'n â chi i sicrhau bod eich cynnig yn dal i adlewyrchu'r hyn sydd arnoch ei angen. Ar hyn o bryd dim ond e-byst rydym ni'n eu hanfon a dim llythyrau drwy'r post.

Am wybodaeth bellach: <https://garfieldweston.org/covid-19/>

### **Sefydliad Foyle**

**Diweddariad coronafeirws – 2 Ebrill 2020** (gall hyn newid)

Rydym ni'n adolygu'n barhaus y broses o gynnig grantiau yn y sefyllfa bresennol.

### **Deiliaid grant cyfredol**

Deallwn fod elusennau bellach yn gweithio mewn ffyrdd gwahanol ac rydym ni am gefnogi'r rhai sydd wedi derbyn grantiau ar hyn o bryd a bod yn hyblyg gan gynnwys:

- cymeradwyo newidiadau i amseru a chyflawni gweithgareddau a ariennir
- newid dyddiadau monitro a gofynion lle bo angen
- ymestyn telerau ariannu
- gwrando ar flaenoriaethau'r sefydliadau a ariennir

Mae'r tîm grantiau yn parhau i fod ar gael drwy e-bost i drafod yr uchod neu unrhyw bryderon eraill sydd gennych am y trefniadau presennol.

### **Ceisiadau newydd**

Cynllun grantiau bach a mawr – rydym ni'n atal y broses o gynnig grantiau dros dro er mwyn adolygu ein grantiau a'n hymrwymiadau ariannol presennol mewn ymateb i'r argyfwng.

Ceisiadau cyfalaf mawr (dros £75,000) – rydym ni'n atal y gronfa am y tro tan i'r sefyllfa wella.

Cynllun Llyfrgelloedd Ysgol Foyle - oherwydd cau'r ysgolion, mae'r cynllun wedi'i atal nes i bethau newid.

## **Ceisiadau arfaethedig**

Rydym ni'n adolygu ceisiadau a gyflwynwyd inni a byddwn ni'n cysylltu ag ymgeiswyr os oes angen dros y pythefnos nesaf. Am wybodaeth bellach: <http://www.foylefoundation.org.uk>

## **Ymddiriedolaethau Elusennol Teulu Sainsbury**

Rydym ni am roi sicrwydd i'r cyrff a ariannwn y byddwn ni'n parhau i'ch cefnogi drwy'r cyfnod ansicr, a bod yr arian yn hyblyg ac wedi'i fwriadu i'ch helpu i ddelio â phroblemau. Rydym ni wedi llofnodi'r datganiad ar y cyd o gefnogaeth gan arianwyr Llundain. Deallwn y gallai fod yn anodd ichi wireddu cyflawniadau eich grant pan na fydd staff na gwirfoddolwyr ar gael. Efallai y bydd angen canslo digwyddiadau neu gyfarfodydd, ac mae angen darparu gwasanaethau mewn ffyrdd gwahanol. Rydym ni am glywed am hyn fel rhan o'ch adroddiadau rheolaidd. Ond nid oes rhaid ichi gymryd yr amser i ddweud wrthyn nhw nawr oni bai y byddai sgwrs o gymorth. Rhowch wybod inni dros y ffôn neu drwy'r e-bost os gallwn helpu drwy symud y dyddiadau talu neu adrodd, ystwytho'r amserlenni, addasu gweithgareddau, neu unrhyw beth arall. Am wybodaeth bellach: [www.sfct.org.uk/message.html](http://www.sfct.org.uk/message.html)

## **Sefydliad John Ellerman**

Rydym ni'n dilyn egwyddorion datganiad arianwyr Llundain. Byddwn ni'n hyblyg i'r sefydliadau sy'n cael ein harian ar hyn o bryd. Rydym ni'n parhau'n ymddangosiadol i weithio fel arfer ac nid ydym ni wedi caniatáu i goronafeirws darfu ar ein grantiau a'r meysydd rydym ni'n canolbwyntio arnynt. Fel ariannwr rydym ni wedi anfon e-bost o gefnogaeth i bobl sy'n cael grantiau gennym sy'n tanlinellu ein parodrwydd i fod yn gefnogol a hyblyg. Byddwn ni'n gwrando ar ein derbynwyr grant i ddeall eu hanghenion. Am wybodaeth bellach: <https://ellerman.org.uk>

## **Sefydliad Celfyddydol Jerwood**

Mewn ymateb i goronafeirws, rydym ni wedi cymryd amser i fyfyrio am sut gallwn flaenoriaethu iechyd a lles ein hartistiaid, ein staff, ein partneriaid a'n hymwelwyr a chefnogi pobl sy'n cael grantiau gennym a'n buddiolwyr. Felly rydym ni wedi penderfynu gohirio arddangosfa *Hindsight* gan Jerwood/Grantiau FVU 2020 a oedd i fod i agor ar 3 Ebrill 2020. Bydd oriel gelf Jerwood yn aros ar gau hyd nes i bethau newid.

## **Arian**

Ein blaenoriaeth yw cefnogi ein buddiolwyr, y bobl sy'n cael ein grantiau a'n partneriaid yn ystod coronafeirws. Byddwn ni'n anrhydeddu ymrwymïadau grant presennol lle bynnag y bo modd a sicrhau bod ein holl ymrwymïadau cytundebol i weithwyr llawrydd ac artistiaid annibynnol yn cael eu hanrhydeddu. Rydym ni am fod yn hyblyg a pheidio â rhoi pwysau ychwanegol ar bobl. Efallai y bydd angen i weithgareddau, amserlenni a dyddiadau cau newid. Rydym ni am wrando a chynnal

sgyrsiau i'n helpu i oroesi'r sefyllfa. Fel ariannwr gydag ystod o bobl sy'n cael grantiau gennym gan gynnwys artistiaid, curaduron a chynhyrchwyr unigol hyd at sefydliadau celfyddydol cenedlaethol mawr, rydym ni'n ymwybodol y bydd amgylchiadau pawb yn wahanol. Byddwn ni'n gweithio gyda chi i'ch helpu hyd eithaf ein gallu drwy'r problemau sydd o'n blaenau. Bydd angen inni gyfyngu ein harian i ysbryd gwreiddiol y gweithgarwch arfaethedig ond byddwn ni mor hyblyg â phosibl wrth ystyried pob cais am gynlluniau amgen. Oherwydd ein bod yn ariannwr cymharol fach sy'n dibynnu ar incwm buddsoddi o'r farchnad stoc, ni allwn gynnig arian brys yn ôl yr angen.

### **Y diweddraf am ariannu a chyfleoedd yn y dyfodol**

Rydym ni wedi gwneud y penderfyniad anodd i oedi agor ceisiadau i gronfa Gwaith Newydd Jerwood a oedd i fod i agor ar 1 Ebrill 2020. Mae'r cyd-destun presennol o ran creu gwaith celfyddydol anghyffredin yn newid yn gyflym. Teimlwn y byddai'n annheg ar adeg mor ansicr ofyn i ymgeiswyr ddatblygu cynlluniau prosiect gan gynnwys cael arian gan bartneriaid eraill i barhau â'r gwaith tu hwnt i'n cyfraniad ni. Rydym ni'n adolygu ein rowndiau pellach o grantiau roeddem ni i fod i'w cynnig yn 2020 a hynny'n amodol ar gyngor pellach gan y Llywodraeth, perfformiad ein buddsoddiadau a datblygiadau'r sector.

### **Y diweddraf am fwsariaethau creadigol Weston Jerwood 2020-22**

Cawsom ymateb gwych i lansiad yr alwad am sefydliadau lletyol a chawsom 267 cais a oedd yn cwmpasu pob math o gelfyddyd ac yn dod o bob rhan o Brydain. Clywodd pob ymgeisydd am ein penderfyniad drwy e-bost ar 16 Mawrth. Mae'r ffordd orau o fwrw ymlaen â'r rhaglen yng nghydestun coronafeirws yn ystyriaeth allweddol o gofio bod ffocws y rhaglen ar alluogi dysgu mewn carfannau a grymuso artistiaid, curaduron, cynhyrchwyr a gweithwyr creadigol yn gynnar yn eu gyrfa i ffynnu mewn sefydliadau celfyddydol blaenllaw. Ar ôl ymgynghori â'n chwe ariannwr, rydym felly'n gohirio dechrau'r rhaglen tan Fedi 2020, yn amodol ar ddatblygiadau pellach. Cyhoeddwn pwy yw'r sefydliadau lletyol a beth yw'r cynlluniau diwygiedig maes o law. Am wybodaeth bellach: <https://jerwoodarts.org/2020/03/27/update-in-response-to-covid-19/>

### **Sefydliad Wolfson**

#### **Ein prosesau a'n gweithdrefnau grant**

Rydym ni'n parhau i weinyddu ein prosesau a'n gweithdrefnau grant fel arfer. Os oes gennych grant cyfredol ac yn pryderu y gallai fod angen i'ch prosiect newid, neu na allwch ei gynnal yn ôl y bwriad gwreiddiol, cysylltwch â ni i amlinellu eich anghenion. Sylweddolwn y gallai fod yn anodd i rai sefydliadau lunio adroddiadau cynnydd ar hyn o bryd ac rydym ni'n hapus i ohirio eich adroddiadau ichi allu rhoi sylw i flaenoriaethau mwy brys.

## Taliadau grant

Gellir hawlio taliadau grant fel arfer. Rydym ni'n rheoli ein buddsoddiadau a'n harian wrth gefn yn ofalus am y tymor hir a gallwn anrhydeddu ein holl ymrwymadau.

## Ceisiadau dan ystyriaeth

Os oes gennych gais dan ystyriaeth, byddwn ni'n ei ystyried yn ôl ein harfer gan ein paneli ymgynghorol ym Mai a chan ein hymddiriedolwyr ym Mehefin. Nid oes angen ichi wneud unrhyw beth ar hyn o bryd, ond mae croeso ichi gysylltu â ni os teimlwch na all eich prosiect fynd ymlaen fel a ragwelwyd neu gydag unrhyw bryderon eraill. Lle bo'n bosibl, anfonwch e-bost yn hytrach na'n ffonio. Os ydych chi'n ymgeisio am grant, neu'n dal grant, cysylltwch â'n tîm grantiau. Os oes gennych ymholiad cyffredinol, anfonwch e-bost at [grants@wolfson.org.uk](mailto:grants@wolfson.org.uk) Lle bo'n bosibl, sganiwch ac e-bostiwch ddogfennau yn hytrach na'u postio gan na allwn warantu ymateb prydlon fel arall. Hoffem ni anfon dymuniadau da atoch ar yr adeg anodd yma. Am ragor o wybodaeth: <https://www.wolfson.org.uk>

## Sefydliad Rayne

Hoffem sicrhau'r bobl sy'n cael grantiau gennym a'r rhai sydd â cheisiadau yn y system ein bod yn parhau i weithio. Deallwn efallai na fydd yn bosibl ichi gwrdd ag amcanion eich grant. Efallai bydd raid gohirio neu gyflwyno prosiectau a rhaglenni neu eu cyflwyno mewn ffordd wahanol. Os oes gennych grant, cofiwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni a byddwn mor hyblyg ag y gallwn fod. I'r rhai sydd eisoes wedi cyflwyno ceisiadau, rhowch wybod inni a oes newidiadau angenrheidiol. Rydym ni'n parhau i dderbyn ceisiadau sy'n adlewyrchu ein blaenoriaethau. Nid oes gennym gronfa frys ar gyfer ymgeiswyr newydd ar hyn o bryd, felly yn anffodus ni allwn ystyried ceisiadau o'r fath.

Am wybodaeth bellach: <https://www.raynefoundation.org.uk>

## Grantiau yng Nghymru

### Sefydliad Waterloo

Ein nod yw cynnal busnes fel arfer. Rydym ni wedi rhoi cyfleusterau ychwanegol ar waith i'n helpu i gyflawni hyn. Bydd taliadau grant ac adolygu ceisiadau'n digwydd yn unol â'n meini prawf ariannu fel arfer. Ond mae coronafeirws yn argyfwng cyfnewidiol felly gellid amrywio ein gweithdrefnau eto. Ein blaenoriaeth gyntaf yw cadw pawb mor iach ac mor ddiogel â phosibl. Rydym ni hefyd am sicrhau'r sefydliadau a ariannwn y byddwn yn parhau i'w hariannu. Rhaid inni oll weithio gyda'n gilydd drwy'r argyfwng. Deallwn yr effaith bosibl ar eich gwaith. Deallwn yr anawsterau i gwrdd ag amcanion ac amserlenni gwreiddiol eich grantiau. Efallai y bydd angen

ichi addasu eich prosiectau neu'r gwasanaethau. Am wybodaeth bellach:

<http://www.waterloofoundation.org.uk/index.html>

### **Ymddiriedolaeth Tregolwyn**

Yng nghanol ansicrwydd coronafeirws, rydym ni wedi penderfynu, yn anfoddog, i atal y rhan fwyaf o'n penderfyniadau am grantiau tan ein cyfarfod yn Hydref. Mae dau reswm. Yn gyntaf, ni allwn ddarogan ym Mai pa sefydliadau, os bydd rhai o gwbl, a fydd mewn sefyllfa i gyflawni eu cynlluniau. Mae'n gyfnod anodd arnom ni i gyd. Mae'n ymddangos yn well inni felly ohirio rownd nesaf y grantiau tan Hydref pan fydd pethau'n gliriach, gobeithio. Rydym ni eisoes wedi derbyn ychydig o geisiadau. Gall yr ymgeiswyr hyn gario'r rhain ymlaen tan Hydref neu (os hoffant) eu haddasu'n briodol i gymryd i ystyriaeth yr oedi. Yn ail, cawn ein harian o freindaliadau drama'r Mousetrap gan Agatha Christie - y cynhyrchiad yn Llundain a'r daith ranbarthol. Wrth gwrs nid yw'r sioeau yn digwydd yn awr. O ganlyniad, nid oes gennym incwm ar hyn o bryd. Erbyn diwedd Hydref, gobeithio y bydd y sefyllfa'n gliriach. Yn olaf, bydd nifer o sefydliadau yn disgwyl derbyn arian ein grantiau yn ystod 2020 ac wedyn. Gallwch chi fod yn dawel eich meddwl ein bod wedi cadw digon o adnoddau i fodloni'r addewidion hyn. Ond ni synnwn pe daw cynigion i ddiwygio, gohirio neu addasu amodau'r grantiau oherwydd yr amgylchiadau presennol.

<https://colwinston.org.uk>

### **Sefydliad Moondance**

- Rydym ni'n bod mor hyblyg ag y gallwn gyda derbynwyr grantiau presennol ynghylch newid defnydd ein harian grant i gynorthwyo gyda'r argyfwng, ymestyn dyddiadau cau, ailedrych ar amcanion a gofynion adrodd y prosiect
- Mae ein harian cyffredinol wedi'i atal – rydym ni'n cadw'r ceisiadau tan adeg ailddechrau ein busnes arferol
- Rydym wedi lansio ein cronfa cymorth coronafeirws i gefnogi sefydliadau a gweithgareddau yng Nghymru. Ceisiadau i'w cyflwyno yn y ffordd arferol

### **Sefydliad Hodge**

Ar hyn o bryd ymddengys fod y sefydliad yn gweithio fel arfer, gyda hyblygrwydd ar gyfer pobl gyffredol â grant o ran adrodd a monitro.